WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 13 Gorffennaf 2018

Trosglwyddo Tir Castell-nedd Port Talbot

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod dyddiedig 06 Gorffennaf 2018, a'ch eglurhad dilynol dyddiedig 09 Gorffennaf 2018, pan wnaethoch ofyn am wybodaeth ynglŷn â throsglwyddo parsel o dir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys eich cwestiwn isod ac wedi amlinellu ein hymateb cyfatebol.

O ran y parsel o dir i'r gorllewin o Empire Avenue, cyfeirnodau'r Gofrestrfa Tir CYM367168, gofynnwn am y dogfennau er mwyn penderfynu ar natur y tendr (cyhoeddus neu breifat, drwy wahoddiad yn unig ac ati); y rhestr o'r sawl a dendrodd; sut gafodd y tendr buddugol ei ddewis (pris, cytundeb amodol ac ati); dyddiad a derbyniad y tâl (taliad llawn, neu randaliadau amodol ac ati); y contract gwerthu (unrhyw amodau a orfodir a manylion y cyfamod rhwystrol).

Nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn. Mae archwilio cyfrifon yn ymwneud yn bennaf â chynnal profion digonol o'r rheolaethau a'r trafodion i fod yn sicr bod y datganiadau ariannol yn gynrychioliad cywir a theg. Mae'n bosibl y gwnaethom edrych ar y trafodyn hwn fel rhan o waredi asedau sefydlog ym mlwyddyn y gwerthiant ond ni fyddem wedi edrych ar lefel y manylder a ddisgrifiwyd yn eich cais. Rydym yn cadw ein dogfennau gweithio archwilio ariannol am gyfnod o saith mlynedd ac felly nid ydym bellach yn cadw cofnodion sy'n mynd yn ôl i 2007.

Fel y dywedais yn fy e-bost cynharach, mae'n bosibl yr hoffech gysylltu â'r Cyngor ynglŷn â'r trafodyn hwn ac mae gwybodaeth am sut mae gwneud cais ar gael yn: www.npt.gov.uk. Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cadw gwybodaeth mewn perthynas â thrafodion eiddo ac mae gwybodaeth ar gael ar ei gwefan: www.gov.uk/government/organisations/land-registry

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau am sut yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir,